PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 30 IONAWR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd Ian Arundale(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bale, Cowan, Cunnah, Howells, Lay, Dianne Rees a/ac Singh |

56 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd McGarry.

57 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Howells | Eitem 6 | Llywodraethwr Ysgol |
| Y Cynghorydd Cowan | Eitem 6.2 | Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Greenhill |

58 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2017 yn gofnod cywir gan y Pwyllgor ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

59 : MATERION GWEITHREDOL

Yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2017, gofynnodd y Pwyllgor am gael y diweddaraf ynghylch llywodraethu a rheoli yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y diweddariad hefyd i roi sicrwydd ar weithredu’r argymhellion a wnaed gan yr Archwiliad Mewnol.

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn crynhoi dulliau rheoli a lliniaru’r gwasanaeth rhag risgiau Cyfarwyddol a Chorfforaethol; trosolwg o’r holl sicrwydd a nodwyd yn Natganiad Sicrwydd yr Uwch Reolwyr; a manylion ynghylch monitro a gweithredu’r argymhellion a wnaed gan yr Archwiliad Mewnol.

Croesawodd y Cadeirydd Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, i’r cyfarfod. Gwahoddwyd aelodau i godi cwestiynau neu wneud sylwadau ar y wybodaeth yn yr adroddiad. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd aelodau a oedd gan y Gyfarwyddiaeth dangosyddion risg allweddol a sut roeddynt yn cael eu defnyddio. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gan y Gyfarwyddiaeth restr hir o ddangosyddion perfformiad allweddol, yn unol â gofynion deddfwriaeth megis y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Dywedwyd wrth aelodau bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion yn newydd gan fod y system flaenorol wedi cael ei disodli. Yn y tymor byr, felly, mae’n anos ei feincnodi, ond bydd hyn yn gwella yn y blynyddoedd i ddod. Mae’r dangosyddion perfformiad yn eang a soffistigedig.

- Gofynnodd aelod a oedd unrhyw gysylltiadau rhwng y dangosyddion a'r Cofrestrau Risg Cyfarwyddol a Chorfforaethol.  Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y dangosyddion yn berthnasol i ystod eang o faterion rhyngberthynol.  Er enghraifft, mae dangosydd sy’n ymwneud â chynadleddau amddiffyn plant yn gysylltiedig â’r risg Diogelu ar y Gofrestr Risg Corfforaethol.

- Gofynnodd aelod a oedd risg posibl yn ymwneud â dyfarniad diweddar y Llys a ddatganodd y dylid talu isafswm cyflog i ofalwyr am oriau ‘cysgu drosodd’ ac y dylid ôl-ddyddio’r taliadau hyn.    Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y risg hwn wedi cael ei gymryd i ystyriaeth o ran y cynllunio ariannol.

- Gofynnodd aelodau i’r Cyfarwyddwr wneud sylw ynghylch ansawdd a pherthnasedd yr argymhellion yn adroddiadau’r Archwiliad Mewnol.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y gyfarwyddiaeth yn gweithio ochr yn ochr â chyd-weithwyr yn y tîm Archwilio Mewnol a bod ansawdd yr adroddiad yn dda ac yn heriol.  Mae’r trafodaethau’n canolbwyntio ar amseru neu amserlenni yn bennaf, yn hytrach na phryderon ynghylch gweithredu’r argymhellion neu beidio.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod timau rheoli’r gyfarwyddiaeth yn mynd i’r afael â, ac yn gyfrifol am weithredu argymhellion yr Archwiliad Mewnol.  Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod ef ei hun yn ymwybodol o gynnwys yr adroddiadau, sy'n cael eu hadolygu'n gyson.

- Dywedwyd wrth yr aelodau bod un Strwythur Rheoli Risg ar gyfer cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ac nid oes unrhyw ‘is-strwythurau’ o fewn pob tîm yn y gyfarwyddiaeth.

- Gofynnodd aelodau i’r Cyfarwyddwr roi sylw ynghylch y trefniadau pontio o ran y strwythur uwch reoli.  Dywedwyd wrth aelodau bod y broses recriwtio yn mynd rhagddi.  Bydd y Cyfarwyddwr yn cyfarfod â’r unigolyn a benodwyd yn gynnar yn y broses i drafod trefniadau trosglwyddo a sicrhau y ceir sefydlogrwydd a dilyniant.

- Gofynnodd aelod a oedd unrhyw gefnogaeth ychwanegol ar waith drwy gydol y cyfnod trawsnewid.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Sefydliad Gofal Cyhoeddus yn rhoi cymorth a chyngor mewn pedwar maes:  Adsefydlu Cymunedol – ail-alluogi; Strategaeth Llety ar gyfer Pobl Hŷn; Gwasanaethau Oedolion—asesu; a datblygu strategaeth ranbarthol ar gyfer plant ag anawsterau dysgu.

- Gan ymateb i gwestiwn gan Aelod o’r Pwyllgor ynghylch y broses o brofi a herio’r Adroddiad Blynyddol statudol hwn, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y gyfarwyddiaeth yn cydnabod nad oedd yr her gan bartneriaid trydydd sector yn gweithio’n dda ac yr oedd angen mynd i’r afael â hyn mewn dull gwahanol.

- Cytunodd y Pennaeth Cyllid i adolygu'r cyngor mewn perthynas ag atodiadau sy'n cael eu heithrio rhag cael eu cyhoeddi.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

CYLLID

60 : CYLLID

Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r sefyllfa monitro ym Mis 6. Roedd y sefyllfa ym Mis 6 yn gytbwys ac nid oedd disgwyl i'r sefyllfa newid yn sylweddol. Bydd adroddiad pellach, a fydd yn rhoi manylion ynghylch y sefyllfa monitro ym Mis 9 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar 27 Mawrth 2018.

Roedd sefyllfa monitro refeniw Mis 6 yn dangos sefyllfa gytbwys â'r gyllideb a gwelliant o £883,000 o'i chymharu â'r sefyllfa ym Mis 4. Roedd y gwelliant yn adlewyrchu camau gweithredu'r tîm rheoli a gyflwynwyd i reoli gwariant ynghyd â'r arbedion a dargedwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd cynnydd pellach hefyd mewn ad-daliadau Ardrethi Annomestig ar eiddo'r Cyngor.

Roedd disgwyl i gyllidebau cyfarwyddiaethau orwario gan £4.956 miliwn gyda gorwariant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, Datblygu Economaidd ac Addysg a Dysgu Gydol Oes. Roedd rhain, yn rhannol, wedi cael eu gwrthbwyso gan dan-wariant a chan y gyllideb wrth gefn gyffredinol o £3.0 miliwn a ddarparwyd fel rhan o gyllideb 2017/18.

Dywedwyd wrth aelodau ymhellach bod Adroddiad Ymgynghoriad Cyllidebol ym mis Tachwedd wedi nodi bwlch o £22.8 miliwn yn y gyllideb ar gyfer 2018/19. Nododd yr adroddiad y cynigion ar gyfer cyllideb 2018/19 i ymgynghori arnynt gan gynnwys arbedion gwerth £14.3 miliwn. Roedd yr ymgynghoriad ar gynigion y gyllideb yn mynd o 2 Tachwedd i 14 Rhagfyr 2017 ac mae'r canlyniadau wedi cael eu dadansoddi i'r Cabinet eu hystyried.

Cyhoeddwyd Setliad Terfynol Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2017. Roedd yn nodi cynnydd ariannol o 0.9% i Gaerdydd, sef gwelliant o £3.080 miliwn yn ychwanegol ar y Setliad Dros Dro. Gofynnwyd i'r aelodau nodi, fodd bynnag, bod y sefyllfa ariannol wedi cael ei thynnu yn ôl i £2.426 miliwn ar ôl ystyried cyfrifoldebau newydd ychwanegol. Mae dal angen esboniad pellach mewn perthynas â gwybodaeth benodol am y grant, yn arbennig y Grant Gwella Addysg.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod adolygiad pellach yn cael ei gynnal ynghylch yr angen i leihau'r gyllideb. Bydd y cynnig drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 15 Chwefror 2018, i'w ystyried a'i gymeradwyo wedyn gan y Cyngor. Cytunodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i ddosbarthu dolen i adroddiad y Cabinet i holl Aelodau'r Pwyllgor cyn gynted ag y bydd ar gael.

Ceisiodd aelodau esboniad ynghylch y cyfrifoldebau newydd ychwanegol y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad. Dywedodd swyddogion fod y cyfrifoldebau newydd yn ymwneud ag Atal Digartrefedd a chodi'r cap y mae dinasyddion yn dechrau talu am eu gofal preswyl.

PENDERFYNWYD – bod y wybodaeth ariannol a'r broses a gâi ei mabwysiadu o ran paratoi at gyllideb ar gyfer 2018/19 yn cael ei nodi.

## 61 : RHEOLAU GWEITHDREFNAU ARIANNOL NEWYDD A GORCHMYNION SEFYDLOG CYTUNDEB NEWYDD A RHEOLAU CAFFAEL NEWYDD

Cafodd y Pwyllgor adroddiad, er gwybodaeth, ynghylch y diweddaraf am Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a Rheolau Caffael ac Archebau Sefydlog Contractau'r Cyngor sydd ar waith ar hyn o bryd.

Dywedwyd wrth Aelodau mai'r tro diwethaf i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol a'r Rheolau Caffael ac Archebau Sefydlog Contractau gael eu hadolygu'n llawn oedd dros bum mlynedd yn ôl. Mae'n bwysig bod y ddwy ddogfen yn addas at y diben ac yn adlewyrchu'r gofynion statudol ac arfer gorau presennol. Mae swyddogion o Adnoddau a Llywodraethiant a'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi adolygu a diweddaru'r darpariaethau ym mhob dogfen.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau ynghylch yr adolygiadau, a oedd yn tynnu sylw at y newidiadau allweddol yn y dogfennau.

Dywedodd y Cadeirydd y dylid ymgynghori ag Aelodau'r Pwyllgor a rhoi'r cyfle iddynt wneud sylwadau ar y newidiadau a gynigiwyd ar gyfer y dogfennau hyn.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

ARCHWILIAD MEWNOL

62 : ARCHWILIAD MEWNOL

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid adroddiad ar Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Dywedwyd wrth aelodau bod y Safonau hyn yn ei wneud yn ofynnol i gynnal asesiadau allanol o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan asesydd annibynnol cymwys. Cafodd asesiadau Caerdydd eu cynnal gan Brif Weithredwr Archwilio Rhondda Cynon Taf ac roedd yr adroddiad yn rhoi'r diweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor ynghylch yr asesiad.

Cyfarfu Prif Weithredwr Archwilio Rhondda Cynon Taf â nifer o swyddogion o'r Adran Archwilio Mewnol ac adolygodd y wybodaeth ategol y darparwyd iddo. Ystyriodd yr asesiad fod y naratif a gafwyd fel rhan o'r hunan-asesu'n gynhwysfawr, ac yn cyfeirio at dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r asesiad. Roedd yr hunan-asesiad eisoes wedi nodi'r meysydd y gellir eu gwella. Cytunodd Prif Weithredwr Archwilio Rhondda Cynon Taf nad oedd y rhain yn cael eu hystyried yn gwyriadau sylweddol oddi wrth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Nododd yr asesiad nifer fach o bwyntiau i'w hystyried ymhellach. Bydd y Prif Weithredwr Archwilio yn cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2018.

63 : TÎM ARCHWILIO MEWNOL

*Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

*Gwnaed y datganiadau buddiant canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:*

| | |
|---|---|
| *Y Cynghorydd Cowan* | *Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Greenhill* |
| *Y Cynghorydd Howells* | *Llywodraethwr Ysgol* |

Cafodd Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 2018/19 ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Cafodd yr adroddiad ei lunio i roi diweddariad i Aelodau ynghylch gwaith y tîm archwilio o 31 Rhagfyr 2017.

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad a soniodd yn fras am rai o'r prif bwyntiau. Dywedwyd wrth aelodau bod 34% o'r cynllun archwilio hyd yn hyn wedi cael ei gwblhau, ac y byddai 53% arall yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae cynnydd hyd yn hyn yn dangos bod 44% o'r argymhellion a gytunwyd wedi cael eu gweithredu.  Nid oedd unrhyw archwiliadau anfoddhaol hyd yn hyn.

Byddai adroddiad pellach ar yr archwiliadau a gwblhawyd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth.

Gofynnodd aelod a oedd cynyddu trothwyon, sy'n rhoi fwy o gyfrifoldeb ar sicrwydd, yn fater o ran cynllunio archwiliad.  Dywedodd y Pennaeth Cyllid yr oedd cysylltiadau â'r Cynllun Archwilio. Dywedodd yr aelod os oedd y Pwyllgor Archwilio yn sicr bod swyddogaethau'r Archwiliad Mewnol yn gweithredu'n iawn yna does dim rheswm pam na allai'r trothwyon fod tipyn yn uwch.  Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod yr ymgynghoriad ar Reolau Gweithdrefn Ariannol ac Archebion Sefydlog Contractau yn rhoi cyfle i sylw hwnnw gael ei wneud a'i ystyried.

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad a'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2017/18 i fynd i'r afael â'r diffyg o ran diwrnodau archwiliad.

64 : TÎM ARCHWILIO

Cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru gan y Tîm Ymchwiliadau Archwilio Mewnol.

Gofynnwyd i aelodau nodi bod Clwb Meincnodi Gwrth-dwyll Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg yn cymharu data o nifer o awdurdodau lleol.  Cost swyddogaeth Gwrth-dwyll Caerdydd fesul £m gros o drosiant yw £125 o gymharu â chyfartaledd y grŵp sef £175. Mae nifer yr ymchwiliadau a gwblhawyd yn ystod 2017/18 yn uwch na'r cyfanswm ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn ddiwethaf.

Ar hyn o bryd, mae 37 o ymchwiliadau parhaus, ac mae 54% ohonynt yn ymwneud ag Atebolrwydd y Dreth Gyngor.  Mae ymchwiliadau eraill yn bennaf yn ymwneud â chyflogeion a materion disgyblaethol parhaus ac amheuaeth posibl o dwyll.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

65 : SIARTR ARCHWILIAD MEWNOL DRAFFT 2018/19 A'R CYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT 2018/19

Rhoddwyd y Siarter Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2018/19 a'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer 2018/19 i'r Pwyllgor. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y dogfennau a rhoi eu sylwadau.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y diwygiadau i'r Siarter Archwilio Mewnol wedi cael eu nodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i roi eu sylwadau ar yr adroddiad.

Yn cyfeirio at baragraff 6 y Siarter Archwilio Mewnol, awgrymodd Aelod i newid y frawddeg "Gofynnir i'r holl gyflogeion" i "Rhaid i'r holl gyflogeion". Byddai hyn yn cryfhau'r Siarter i sicrhau bod staff yn ymwybodol bod angen iddynt gynorthwyo'r archwiliad mewnol. Cytunodd y Pennaeth Cyllid i ddiwygio'r Siarter fel sy'n berthnasol.

Nododd y Pwyllgor fod y Strategaeth Archwilio Mewnol sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad D i'r adroddiad yn cynnwys rhestr o amcanion sy'n gysylltiedig â gweithredu'r swyddogaeth Archwilio Mewnol. Argymhellwyd y dylid rhoi ystyriaeth i sut y gellir mesur yr amcanion hyn.

Gofynnodd aelodau hefyd am dystiolaeth gryfach fod nodi blaenoriaethau'r Cynllun Archwilio Mewnol yn gysylltiedig â rheoli risg.

Croesawodd y Pennaeth Cyllid y sylwadau a'r adborth gan y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

LLYWODRAETHU A RHEOLI RISG

66 : LLYWODRAETHIANT A RHEOLI RISG

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn crynhoi Datganiadau Sicrwydd Uwch Reolwyr ar gyfer safle canol blwyddyn y flwyddyn ariannol 2017/18.

Dywedwyd wrth aelodau bod pob Cyfarwyddwr wedi ystyried ei safle yn erbyn 23 datganiad sicrwydd. Cafodd y safleoedd cyfarwyddiaeth terfynol hyn eu llywio ar ôl cynnal adolygiad o, ac ymgysylltu ag aelodau eu timau rheoli perthnasol. Cafodd canlyniadau'r datganiadau sydd wedi'u crynhoi o fewn 9 categori eu hatodi i'r adroddiad yn Atodiad A. Mae'r canlyniadau'n nodi y ceir llywodraethu 'cryf' yn gyffredinol ym mhob maes sicrwydd.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

67 : CYNLLUN GWEITHREDU AGS 2017/18 (CANOL BLWYDDYN)

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid adroddiad diweddaru ynghylch Cynllun Gweithredu (Canol Blwyddyn) Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18. Atgoffwyd aelodau y cytunodd Uwch Dîm Rheoli ym mis Mai 2017 i gario tri mater llywodraethu ymlaen i gynllun gweithredu 2017/18. Y tri mater hyn oedd:

- Capasiti a gwneud penderfyniadau
- Y capasiti a'r gallu i gomisiynu

- Gwneud penderfyniadau a chostau perthnasol

Yn ogystal, nodwyd dau fater llywodraethu arall yn ystod y broses hunan-asesu, sef:

- Llywodraethiant Cydweithredu Partneriaeth
- Arbedion Cadarn a Chynaliadwy

Roedd yr adroddiad yn disgrifio materion pob llywodraethiant a'u hasesiad canol blwyddyn.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

68 : COD LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL DRAFFT

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch y Cod Llywodraethiant Corfforaethol drafft. Croesawodd aelodau Davina Fiore, Cyfarwyddwr y Gyfraith, Llywodraethiant a Swyddog Monitro i'r cyfarfod.

Dywedwyd wrth aelodau bod yr awdurdod yn cymryd cyfle i reoleiddio ei drefniadau llywodraethu drwy roi Cod Llywodraethiant Corfforaethol ar waith. Mae'r Cod hwn yn feincnod y gellir ei ddefnyddio i hyrwyddo'r gwaith o ymgymryd ac ymgysylltu fel un o brif egwyddorion llywodraeth leol. Mae'r Cod hwn bellach wedi cael ei ddatblygu yn dair rhan: sut rydym yn gweithredu egwyddorion llywodraethiant da; sut rydym yn asesu llywodraethiant o fewn Cyngor Caerdydd; a sut rydym yn defnyddio ein hasesiad llywodraethiant.

Mae rhan 1 o'r Cod yn nodi saith egwyddor llywodraethiant da ac yn cynnwys datganiad o fwriad ac esboniad o sut fydd pob egwyddor yn cael ei gweithredu.
Mae rhan 2 yn nodi'r dull o gasglu'r wybodaeth berthnasol i'w defnyddio i ddod i sefyllfa gorfforaethol o ran iechyd llywodraethiant yn y Cyngor.
Mae rhan 3 yn nodi sut y defnyddir yr Asesiad Llywodraethiant Blynyddol i wneud unrhyw welliannau angenrheidiol yn sgil yr asesiad, i ddilyn y gwelliannau hyn, a sicrhau y rhoddir ystyriaeth i swyddogaethau sicrwydd wrth ymgymryd ag asesiadau.

Gwahoddodd y Cyfarwyddwr sylwadau ar y Cod Llywodraethiant Corfforaethol drafft. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Croesawodd Aelodau'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol drafft.

- Gofynnodd aelod a fyddai modd trosglwyddo cwynion at CF annibynnol. Dywedodd y Swyddog Monitro fod cwynion yn erbyn aelodau yn debygol o gael eu cyfeirio at yr Ombwdsman. Mae cwynion yn erbyn swyddogion yn mynd yn groes i God Ymddygiad Swyddogion a thelerau eu contract cyflogaeth.

- Nodwyd nad oedd y Polisi Chwythu'r Chwiban yn berthnasol i aelodau etholedig. Derbyniodd y Swyddog Monitro'r pwynt hwn a nododd fod y Polisi Chwythu'r Chwiban yn cael ei ddefnyddio gan aelodau staff iau yn bennaf.

- Ystyriodd aelodau fod, o ran bod yn agored ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, rhoddir gwerth mawr a phwysigrwydd ar we-ddarlledu cyfarfodydd.

- Dywedodd aelodau fod angen i ofynion datgeliadau swyddogion o ran lletygarwch a datgan buddiannau gael eu halinio â'r polisïau ar gyfer Aelodau ac y dylai cofrestrau gael eu gwneud yn gyhoeddus. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y Pwyllgor Safonau a Moeseg wedi cynnwys y mater hwn yn ei gynllun gwaith.

PENDERFYNWYD –:

(1) Nodi'r adroddiad a sylwadau'r Pwyllgor;

(2) y bydd Pwyllgor y Cyfansoddiad a'r Cyngor llawn yn cytuno i'r Cod Llywodraethiant ac yn ei gynnwys yn y Cyfansoddiad.

69 : STRATEGAETH RHEOLI RISG DRAFFT

Yn dilyn adolygiad o ddull y Cyngor o reoli risg yn 2017, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar Bolisi a Strategaeth Rheoli Risg Drafft a gofynnwyd i aelodau edrych ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y Polisi a'r Strategaeth cyn eu gweithredu ym mis Ebrill 2018.

Croesawodd y Cadeirydd Vivienne Pearson, Rheolwr Gweithredol, Llywodraethiant a Risg, i'r cyfarfod. Gwahoddwyd Vivienne Pearson i gyflwyno'r adroddiad.

Mae Rheoli Risg yn elfen allweddol o lywodraethiant corfforaethol a gall helpu i flaenoriaethu sylw a sicrhau y gwneir penderfyniadau ystyriol ar adegau lle mae pwysau parhaus ar adnoddau. Mae dull newydd y Cyngor o reoli risg wedi bod yn broses gydweithredol sydd wedi rhoi ystyriaeth i ofynion Fframwaith Llywodraethiant Da ar gyfer Llywodraeth Leol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg/Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdod Lleol; barn yr Uwch Dîm Rheoli; ac adborth gan froceriaid yswiriant yr awdurdod.

Dywedwyd wrth aelodau bod y dull newydd o reoli risg yn ceisio nodi dull cynaliadwy o reoli risg drwy symud tuag at 'awydd am nodi risg menter gyfan' a ddyluniwyd i alluogi arloesedd a newid drwy lywodraethiant a stiwardiaeth effeithiol. Bydd y fframwaith yn cefnogi'r gwaith o gyflawni newid sefydliadol dros y tymor canolig a'r tymor hwy, gan ymgorffori'r athroniaeth ymwybyddiaeth o risg yn gamau gweithredu, gweithgareddau a myfyrdod.

Mae'r Strategaeth Rheoli Risg Drafft yn nodi amcanion y Cyngor mewn perthynas â rheoli risgiau. Mae'r Polisi Rheoli Risg Drafft yn nodi'r prif egwyddorion; gwell arweiniad; ffordd well o ddadansoddi risg; ffordd well o roi gwybod am risgiau; ffordd well o ymateb i risgiau; a ffordd well o fonitro a gwneud adolygiadau.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan y Pwyllgor. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Roedd yr aelodau yn gefnogol o'r Strategaeth a'r Polisi newydd gan mwyaf.

- Gofynnwyd i swyddogion egluro'r cysylltiad rhwng yr awydd am nodi risg a goddefgarwch o risg. Dywedwyd wrth aelodau mai syniad newydd oedd hwn â'r nod o wthio'r ffiniau. Mewn meysydd allweddol, nodwyd ei fod dal yn iawn i wneud penderfyniadau hyd yn oed mewn achos o risg 'goch'. Teimlwyd bod hwn yn ddull uchelgeisiol ac oherwydd hynny, awgrymodd aelod y dylid treialu'r dull mewn rhai gwasanaethau yn gyntaf, cyn ei gyflwyno ym mhob rhan o'r awdurdod.

- Nododd aelodau fod llawer o ddata yn cefnogi'r cynllun rheoli risg yn cael ei brosesu drwy daenlenni. Gofynnodd aelodau i'r swyddogion ystyried cyflwyno meddalwedd rheoli risg ddilys. Derbyniodd y Rheolwr Gweithredol y pwynt a dywedodd y byddai hyn yn cyfateb i ddyheadau'r gwasanaeth ei hun.

- Roedd yr aelodau am weld tystiolaeth o gyfarwyddiaethau'n defnyddio dangosyddion risg allweddol yn yr asesiadau rheoli risg yn y dyfodol.

- Awgrymodd aelodau y byddai defnyddio methodoleg cerdyn sgorio mwy cytbwys yn well yn gwella gallu'r awdurdod i gyfathrebu.

PENDERFYNWYD –:

(1) Nodi'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg drafft;

(2) Nodi sylwadau'r Pwyllgor cyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r fersiwn derfynol.

70 : SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynodd Sara-Jane Byrne y diweddaraf ynghylch rhaglen waith archwilio perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru 2017/18.

Wrth gyfeirio at eitem 3 ac eitem 4 yn yr adroddiad – Adolygiad o Safbwynt y Defnyddiwr Gwasanaeth ac Adolygiad o Safon Ansawdd Tai Cymru – gofynnodd aelodau a gafwyd unrhyw anawsterau wrth ymgymryd â'r arolygon ac a oedd yr arolygon yn targedu grwpiau agored i niwed. Nododd Sara-Jane Byrne y byddai'n trafod y pwyntiau hyn â swyddogion. Derbyniwyd mai nid arolwg dros y ffôn fyddai'r dull gorau o gysylltu â grwpiau agored i niwed.

O ran diweddariad, dywedwyd wrth aelodau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio sampl fach a bydd y sefydliad a gomisiynir yn cyfrifo beth fyddai'r sampl honno. Dywedodd y Swyddfa Archwilio Cymru y bydd yn ceisio ategu'r arolwg dros y ffôn â rhai grwpiau ffocws.

Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru eu bod yn ymgymryd â diagnostig risg digidol lefel uchel yn helpu i nodi risgiau digidol posibl a ph'un a fyddai angen unrhyw waith archwilio perthnasol pellach. Gofynnodd aelod a oedd hyn yn gysylltiedig yn uniongyrchol â RhDDC, ond dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd hynny'n wir, ond y gallai ymwneud â hyn ar lefel uchel.

Gofynnodd aelod beth oedd Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â stoc dai sector preifat sy'n methu â bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod trefniadau a rheoliadau ar waith i graffu ar faterion o’r fath drwy’r fframwaith rheoleiddio Cynllunio.

Cododd aelod bryder ynghylch methu â buddsoddi mewn asedau adeiladu ar draws ystadau'r awdurdod a'r risgiau diogelwch cysylltiedig.  Gofynnodd aelod sut oedd y ffordd orau o sicrhau bod yr awdurdod yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn rhagweithiol.  Fel rhan o 2018-19, dywedwyd wrth aelodau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio dilyn trywydd Astudiaethau Llywodraeth Leol blaenorol sy’n ymwneud â hamdden, iechyd yr amgylchedd a diogelu corfforaethol. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgynghori â Chynghorau ynghylch Astudiaethau Llywodraeth Leol ar gyfer y dyfodol.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

RHEOLI'R DRYSORLYS

71 : RHEOLI’R TRYSORLYS

*Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi’i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi’r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau’r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i’w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn nodi perfformiad a datganiad sefyllfa Rheoli’r Trysorlys ar 31 Ragfyr 2017.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

72 : STRATEGAETH DDRAFFT 2018/19

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ddrafft ar gyfer 2018/19. Roedd angen cymeradwyo’r Strategaeth arfaethedig fel rhan o Adroddiad Cyllideb 2018/19 i'r Cyngor yn Chwefror 2018. Roedd y strategaeth ddrafft wedi'i hatodi i'r adroddiad.

Gwahoddwyd Anil Hirani, Rheolwr Gweithredol, Cyfalaf a’r Trysorlys i gyflwyno’r adroddiad.  Dywedwyd wrth aelodau bod y strategaeth yn rhoi ystyriaeth i ddiweddariad 2017 i God Rheoli’r Trysorlys Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru ar fuddsoddiadau.  Cafwyd benthyciad ychwanegol i fuddsoddi yng nghyflwr asedau, cyfraniad y Cyngor at y Fargen Ddinesig a rhaglen wella Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B ar draws ystadau ysgolion.

Gofynnwyd i aelodau nodi er y bod nifer o’r dangosyddion yn y Strategaeth yn ddibynnol ar y Rhaglen Gyfalaf derfynol sy’n debygol o gael ei phennu gan y Cyngor ym mis Chwefror 2018, mae’n annhebygol y bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig.

Roedd yr adroddiad yn crynhoi’r prif bwyntiau i'w nodi yn y Strategaeth.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau am y Strategaeth ddrafft.

- Gofynnodd aelodau faint yr oedd yr awdurdod yn ceisio ei fenthyca i ariannu cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B a'r cyfnod ad-dalu. Dywedodd swyddogion mai cyfanswm costau'r cynigion oedd £244 miliwn. Mae'r Cyngor yn benthyca £122 miliwn dros gyfnod ad-dalu o 25 mlynedd yn ôl y model ariannol. Mae'r cyfrifiadau hyn yn seiliedig ar gyfradd llog o 3%

- Cyfeiriodd aelod at baragraff 46 y strategaeth. Yn 2016/17, y gofyniad benthyca mewnol ar gyfer Awdurdodau Unedol Cymru oedd 11.3% ar gyfartaledd o'u Gofyniad Ariannu Cyfalaf, ac ar gyfer Awdurdodau Unedol Lloegr, roedd yn 20.9%, a 13.5% ar gyfer holl gleientiaid yr awdurdod. Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod y cyd-destun yn Lloegr yn wahanol iawn gan fod gan awdurdodau lleol y gallu i godi mwy o arian yn lleol ac felly, mae eu gallu i wasanaethu dyled yn wahanol iawn. Ystyriodd yr aelod fod angen adlewyrchu hyn yn y Strategaeth.

- Dywedwyd wrth aelodau bod Caerdydd yn agos at ei chap o ran benthyca Cyfrif Refeniw Tai. Dywedodd swyddogion fod y cap yn cael ei bennu ar gyfer pob Awdurdod yng Nghymru a bod trafodaethau ar y gweill â Llywodraeth Cymru gyda'r nod o ail-ddyrannu'r cap.

PENDERFYNWYD –:

(1) y dylai'r Pwyllgor nodi'r adroddiad.

(2) Yn amodol ar sylwadau a diwygiad, dylai'r Cabinet ystyried y Strategaeth, cyn iddi gael ei chymeradwyo gan y Cyngor fel rhan o Adroddiad Cynigion y Gyllideb 2018/19.

73 : GOHEBIAETH GRAFFU

Cafodd y Pwyllgor lythyr gan y Cynghorydd Chris Weaver, Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, mewn ymateb i lythyr gan y Pwyllgor yn nodi pryderon y Pwyllgor o ran y cynigion arbedion drafft a'u heffaith ar y swyddogaeth Archwiliad Mewnol. Cytunwyd i wneud y llythyr yn gyhoeddus.

74 : CAMAU SYDD ETO I'W CYFLAWNI

PENDERFYNWYD – Nodi camau'r Pwyllgor sydd eto i'w cyflawni.

75 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD – nodi'r Cynllun Gwaith y Pwyllgor.

76 : MATERION BRYS

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

77 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm